Cofnodion Cyfarfod Arbennig CYNGOR SIR CEREDIGION a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynhadledda Dydd Mawrth, 20fed Mehefin, 2023

YN BRESENNOL: Cynghorydd Maldwyn Lewis (Cadeirydd); Cynghorwyr Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Marc Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans, Elizabeth Evans, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Paul Hinge, Hugh R M Hughes, Chris James, Gwyn James, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall.

(2.00pm - 3.30pm)

Gweithdrefn
Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Maldwyn Lewis, bawb i'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

1 Ymddiheuriadau
Ymddiheuriodd y Cynghorwyr Steve Davies, Keith Evans, Ceris Jones a Sian Maehrlein am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o ddiddordeb.

3 Materion Personol
Dim.

4 EITEM EITHRIEDIG
Nid yw'r adroddiad sy'n ymwneud ag eitem 5 ar yr agenda, Atodiad B, i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 ac 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor, ar ôl cymhwyso'r Prawf Budd y Cyhoedd, yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, bydd y cyhoedd a'r wasg yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitem, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a phwyso o'r Cyfarfod.

PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd a'r wasg yn ystod ar ystyriaeth o eitem 5 isod ar y sail bod y cais yn cynnwys gwybodaeth bersonol na ddylid, ar sail ystyriaeth, ei datgelu i'r cyhoedd a'r wasg. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r gweddarlledu yn cael ei atal yn ystod eitem 5 isod.

5 Swydd Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal (a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol)
Derbyniodd y Cyngor gyflwyniad ac ymateb i gwestiynau a osodwyd i'r ymgeiswyr ar y rhestr fer i benodi i swydd wag y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal (sydd hefyd yn gweithredu fel Cyfarwyddwr

Statudol Gwasanaethau Democrataidd). Cafwyd adborth hefyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Rhestr Fer, Amy Billington o SOLACE, Cyngohyrdd Alun Williams, yr Aelod Cabinet Llesiant Gydol Oes a'r Prif Weithredwr.

Yn dilyn pleidlais PENDERFYNWYD cynnig y swydd i Mr Ricky Cooper.

Ystyriwyd y cyflog a fyddai'n cael ei gynnig. Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cynnig y swydd y pedwerydd pwynt cynyddrannol ar raddfa gyflog A2 y Swyddog Arweiniol Corfforaethol (£90,164) ynghyd a phwynt ategu grym y farchnad (£7,336) sy'n gyfanswm o £97,500.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cynnig y swydd ar gyflog o £97,500, y pedwerydd pwynt cynyddrannol ar raddfa gyflog A2 y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ynghyd a phwynt ategu grym y farchnad (£7,336) sy'n gyfanswm o £97,500.

Derbyniodd Mr Ricky Cooper y cynnig o swydd ar gyflog o £97,500 sef y pedwerydd pwynt cynyddrannol ar raddfa gyflog A2 y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ynghyd a phwynt ategu grym y farchnad, i gychwyn ar 1 Medi 2023

Yna gwahoddwyd y cyhoedd a'r wasg i ddod i mewn i'r cyfarfod.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Mr Ricky Cooper wedi cael cynnig a derbyn y swydd gan ddechrau ar y pedwerydd pwynt cynyddrannol Swyddog Arweiniol Corfforaethol graddfa gyflog A2, ynghyd a phwynt ategu grym y farchnad; i gychwyn ar 1 Medi 2023.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2023

CADEIRYDD: